Hyrwyddwyr OpenLearn - Rhagor o fanylion

Pwy all fod yn hyrwyddwyr OpenLearn?

Gallai hyrwyddwyr gynnwys……

- Gweithwyr neu wirfoddolwyr Cymunedau yn Gyntaf
- Tiwtoriaid neu hyfforddwyr o sefydliadau cymunedol a cholegau
- Pobl sy'n gweithio ym maes dysgu oedolion yn y gymuned neu sy'n hyrwyddo dysgu a datblygu fel rhan o'u swydd
- Staff llyfrgelloedd
- Cynrychiolwyr Dysgu'r Undebau yn y gweithle
- Unrhyw un arall â chysylltiadau yn ei gymuned neu ei weithle sy'n credu yng ngwerth dysgu ac sydd â diddordeb mewn helpu eraill i gael mynediad i ddysgu.

Bydd hyrwyddwyr OpenLearn yn gweithio'n **ddi-dâl** a disgwylir iddynt ymgymryd â'r rôl o fewn eu rôl broffesiynol neu wirfoddol arferol. Disgwyliwn y bydd bod yn hyrwyddwr OpenLearn yn ategu ac yn helpu i gyflawni nodau eu rôl gyflogedig neu wirfoddol bresennol.

Rôl gyffredinol hyrwyddwr OpenLearn

- Sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf am wefan a chynnwys OpenLearn fel y gallwch eu rhannu ag eraill yn ddiffwdan.

- Bod yn wyneb cyfarwydd yn y gymuned neu'r gweithle er mwyn dangos i bobl sut i fynd i'r wefan a chofrestru arni, sut i ddefnyddio'r deunyddiau OpenLearn sydd am ddim ac argymell unedau a all fod o ddiddordeb iddynt.

- Helpu i roi dysgwyr OpenLearn ar ben ffordd o ran y camau nesaf at ddysgu ffurfiol drwy gysylltu â darparwyr dysgu lleol eraill a darparwyr dysgu o bell.

- Cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio OpenLearn ac adborth ar gyfer monitro a gwerthuso'r prosiect.

- Dod yn rhan o'r gymuned ddysgu, drwy gysylltu â rhwydweithiau ar-lein hyrwyddwyr OpenLearn eraill a hwyluswyr y prosiect. Helpu i ddylanwadu ar y prosiect wrth iddo ddatblygu a sicrhau cymorth parhaus yn eich rôl.

- Cymryd rhan mewn rhagor o hyfforddiant ar-lein wrth i'r prosiect ddatblygu.

Meini prawf ar gyfer hyrwyddwyr OpenLearn

Er mwyn cael lle ar yr hyfforddiant, bydd angen i hyrwyddwyr OpenLearn ddangos eu bod yn gallu cyflawni rôl hyrwyddwr a bodloni'r meini prawf isod.

- Credu yng ngwerth dysgu a bod yn barod i roi o'ch amser i helpu eraill i gael mynediad i ddysgu.

- Bod yn weddol hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur.

- Mynediad i gyfleusterau TGCh yn eich gweithle neu'ch cymuned.

- Cysylltiad â phobl o'n grwpiau targed Ehangu Mynediad, e.e. pobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl anabl, a phobl eraill heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg bellach ac uwch.

- Bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn eich cymuned, cyfleoedd dysgu eraill, a chyfeirio pobl at asiantaethau eraill a all helpu gyda dysgu pellach.

- Sicrhau bod gennych gefnogaeth eich cyflogwr/rheolwr llinell i fod yn hyrwyddwr OpenLearn.

Beth fydd cynnwys yr hyfforddiant?

Bydd hyrwyddwyr yn cael diwrnod o hyfforddiant (10am - 3pm) i ddechrau. Bydd yr hyfforddiant yn gyfle i chi edrych ar wefan OpenLearn, dysgu mwy am y rôl a bydd yn gyfle i chi rwydweithio â'r 'hyrwyddwyr' eraill.

Rhoddir hyfforddiant a chymorth dilynol ar-lein drwy rwydweithiau a fforymau wrth i'r prosiect ddatblygu.

Dyddiadau a lleoliadau'r cyrsiau - bydd angen i chi fynychu un o'r rhain.

Wrecsam	dydd Gwener 24ain Chwefror	Partneriaeth Parc Caia, Wrecsam
Bangor	dydd Iau 19eg Ebrill	Tŷ Cegin, Maesgeirchen
Machynlleth	dydd Gwener 18fed Mai	Canolfan Hyddgen
Bae Colwyn	dydd Llun 11eg Mehefin	Canolfan Ddysgu'r Bae

Sut y byddwch yn penderfynu pwy gaiff fod yn hyrwyddwr OpenLearn?

Mae lleoedd ar gyfer yr hyfforddiant yn brin, caiff hyrwyddwyr eu derbyn gan dîm y prosiect ar sail y meini prawf uchod. Os byddwch yn bodloni'r meini prawf ond bod dim lleoedd ar gael, byddwn yn eich gwahodd i un o'r sesiynau hyfforddiant eraill neu'n ceisio cynnal sesiynau ychwanegol os bydd llawer o alw.